**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**16 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad ynghylch y Rhaglen Ddigidol |
| AWDUR: | Dave Owen, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ynghylch cynnydd y Rhaglen Ddigidol, gan ganolbwyntio'n benodol ar adolygu Achos Busnes y Rhaglen, a chyflwyno'r fersiwn ohono a ddiweddarwyd wedyn.

## 2. Penderfyniad(au) a geisir

2.1. Derbyn yr argymhelliad i gymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol, sydd wedi'i ddiweddaru (fersiwn 0.22).

2.2. Cefnogi'r cais i ganiatáu i'r Prosiectau a nodwyd yn y Rhaglen Ddigidol symud ymlaen i gam yr Achos Busnes Amlinellol.

## 3. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1. Mae Achos Busnes y Rhaglen yn egluro'r ystyriaethau o safbwynt datblygu'r Rhaglen Ddigidol ar gyfer arian y Fargen Twf, ac mae'n rhoi rhestr o ymyriadau a phrosiectau sydd i'w cyflawni yn ystod cyfnod y Rhaglen a'r Fargen Twf.

3.2. Cafodd y drafft cyntaf o Achos Busnes y Rhaglen ei gyflwyno i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ym mis Mawrth 2022. Cafodd ei gymeradwyo bryd hynny, a chafwyd caniatâd i ffurfio Bwrdd y Rhaglen Ddigidol. Ers hynny, mae Bwrdd y Rhaglen wedi bod yn cynnal asesiad opsiynau o brosiectau posibl i'w cyflawni ag arian y Fargen Twf, ac mae wedi bod yn cynnal adolygiad o Achos Busnes y Rhaglen.

3.3. Mae'r adolygiad o Achos Busnes y Rhaglen yn nodi ac yn cadarnhau unwaith eto bod buddsoddi mewn Seilwaith Digidol yn digwydd yn arafach yng nghanolbarth Cymru nag mewn ardaloedd eraill ac y bydd y rhanbarth, heb ymyrraeth, yn parhau i weld diffygion yn y ddarpariaeth o ran seilwaith digidol. Mae ystadegau a data wedi cael eu diweddaru a'u diwygio ers y drafft cychwynnol er mwyn adlewyrchu tueddiadau a heriau cyfredol.

3.4. Heb yr ymyrraeth angenrheidiol, bydd lefelau cysylltedd a chapasiti'n disgyn yn is eto na'r lefelau sy'n ofynnol yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r galw am dechnoleg ddigidol a'r ddibyniaeth arni gynyddu.

3.5. Blaenoriaethau'r Rhaglen o hyd yw cysylltedd sefydlog a chysylltedd symudol. Fel y dangosir drwy Flaenoriaethau Twf Strategol eraill, caiff y rhain effaith sylfaenol ar effeithiolrwydd ein heconomi, felly maent yn chwarae rhan bwysig o safbwynt galluogi busnesau i dyfu a ffynnu. Maent hefyd yn darparu sylfeini ar gyfer mathau eraill o seilwaith digidol.

3.6. Nodwyd yn y fersiwn cynharach o Achos Busnes y Rhaglen ei bod yn hollbwysig sicrhau bod modd i'r gwaith o flaenoriaethu ymyriadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i'r amgylchedd y mae'r ffrwd ddigidol yn gweithredu ynddo, sy'n newid yn barhaus. Mae'r penderfyniad hwnnw wedi'i gyfiawnhau, oherwydd nid yw'r prosiectau cychwynnol y nodwyd y byddent yn arwain at fanteision sydyn wedi cael symud yn eu blaen erbyn hyn, yn dilyn rhagor o waith cwmpasu ac ystyried.

3.7. Roedd y Rhaglen Ddigidol yn destun Adolygiad Sicrwydd ganol mis Medi, a fu'n canolbwyntio yn bennaf ar y prosesau a'r trefniadau llywodraethu presennol a'u haddasrwydd i sicrhau bod cyflawni'n digwydd.

3.8. Yn dilyn yr Adolygiad Sicrwydd, cafodd adroddiad drafft ei gyhoeddi a barnwyd bod y Rhaglen yn y categori Oren. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae adroddiad yr Adolygiad wrthi'n cael ei gwblhau, felly bydd crynodeb a throsolwg o'r argymhellion yn cael eu darparu yng nghyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.

## 4. Datblygu prosiectau

4.1. Cafodd dau brosiect eu nodi i'w blaenoriaethu yn ystod drafft cychwynnol Achos Busnes y Rhaglen, sef (a) Prosiect Safleoedd Cyflogaeth Strategol a (b) Prosiect Safleoedd Canolfannau Tai Cymdeithasol. Roedd y ddau brosiect yn canolbwyntio ar osod ffeibr i wella'r ddarpariaeth o ran band eang ar draws y rhanbarth.

4.2. Mae nifer o fentrau Llywodraeth y DU wedi'u rhoi ar waith ar draws canolbarth Cymru, neu byddant yn cael eu rhoi ar waith yn fuan, a fydd yn esgor ar lawer o fuddsoddi yn y ddarpariaeth o ran band eang ac mewn cysylltedd symudol, a allai arwain at ddyblygu gwaith gosod seilwaith pe bai Tyfu Canolbarth Cymru yn bwrw ymlaen â'r prosiectau a grybwyllwyd. Felly, nid yw'r prosiectau cychwynnol yn cael eu symud yn eu blaen.

4.3. Mae nifer o brosiectau a nodwyd wedi symud ymlaen drwy'r model blaenoriaethu, ac mae Bwrdd y Rhaglen Ddigidol wedi craffu arnynt er mwyn eu symud ymlaen i gam yr Achos Busnes Amlinellol ac, yn nes ymlaen, i gam yr Achos Busnes Llawn a gyflwynir i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru drwy Fwrdd Cyflawni'r Portffolio fel y nodir yn nhrefniadau llywodraethu'r Rhaglen.

4.4. Gyda chymorth yr ymgynghorwyr digidol, mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Prosiect Eiddo Anodd Iawn Ei Gyrraedd wedi'i ddatblygu, ac mae'n awgrymu fwyfwy y dylai'r Rhaglen barhau ar hyn o bryd i ystyried rhaglenni eraill a ariennir yn gyhoeddus ac yn fasnachol, a myfyrio yn eu cylch, cyn penderfynu pa ymyriadau fyddai'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau i wella'r ddarpariaeth o ran band eang ar draws y rhanbarth.

4.5. Darganfuwyd hyn oherwydd bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymyriadau arfaethedig yn yr ardal, sef y Prosiect Gigadid a fydd yn golygu bod

o leiaf £30 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y rhanbarth yn ystod y blynyddoedd nesaf; a phrosiect Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer Eiddo Anodd Iawn Ei Gyrraedd, a fydd yn targedu hyd at 70,000 eiddo ar draws Cymru â buddsoddiad o £70 miliwn.

4.6. Mae gwaith ymgysylltu â'r farchnad wedi digwydd gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol, ac ar ôl cwblhau Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth y DU mae'n ymddangos y bydd yna ardaloedd ar draws canolbarth Cymru na fyddant yn gweld unrhyw welliannau i'w darpariaeth o ran cysylltedd symudol. Mae angen ymyrraeth gan Tyfu Canolbarth Cymru, felly. Mae yna ardaloedd lle bydd Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol yn gosod seilwaith os byddant yn cael cymhellion ariannol drwy gyllid Tyfu Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae yna ardaloedd hefyd lle byddai'r enillion ar fuddsoddiad yn fach iawn, sy'n ardaloedd y mae'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol yn gyndyn o'u hystyried. Bydd angen prosiectau sy'n ymdrin â'r ardaloedd hynny hefyd, felly. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ac i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gysylltedd symudol a chapasiti ar draws canolbarth Cymru.

## 5. Cofrestr Risg a Materion y Rhaglen

5.1. Mae Cofrestr Risg a Materion y Rhaglen i'w gweld yn **Atodiad 2** er mwyn iddi gael ei hystyried. Bydd risgiau a materion yn dal i gael eu rheoli drwy'r systemau rheoli ffurfiol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, yn unol â dull Portffolio Tyfu Canolbarth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r risgiau mwyaf amlwg yn parhau i gynnwys y canlynol:

5.2. **Adnoddau** – Er mwyn cyflawni'r manteision a nodir yn Achos Busnes y Rhaglen, rhaid i'r Rhaglen gael adnoddau digonol i'w gwneud yn bosibl gwario cyllid cyfalaf. Er y bydd y Rhaglen yn defnyddio adnoddau presennol wrth weithredu o ddydd i ddydd, bydd angen llawer o adnoddau pwrpasol ar gyfer y Rhaglen hefyd pan fydd prosiectau'n cael eu symud ymlaen tuag at y cam cyflawni. Bydd Bwrdd y Rhaglen Ddigidol yn craffu ar y gofyniad arfaethedig am adnoddau cyn bod adroddiad a chais priodol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni Portffolio Tyfu Canolbarth Cymru ac i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.

5.3. **Cyfyngiadau ar gyllid y Rhaglen** – Mae Achos Busnes y Rhaglen yn nodi maint yr her sy'n wynebu canolbarth Cymru o safbwynt ei anghenion o ran cysylltedd digidol. Gyda'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael i'r Rhaglen, gallai lefel yr ymyrraeth fod yn gyfyngedig o gymharu. Mae'n ymwneud nid yn unig â'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ond hefyd, fel y soniwyd, â lefel y cyllid refeniw sy'n ofynnol i hybu'r gwaith o gyflawni ymyriadau posibl.

5.4. **Mentrau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** – Mae'r amcanion yn cynnwys cyd-fynd â gwaith arall i osod seilwaith, a ariennir yn gyhoeddus ac yn fasnachol, felly bydd y Rhaglen yn sicrhau nad yw ymyriadau a phrosiectau'n dyblygu ei gilydd ac nad yw arian Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei ddefnyddio mewn mannau lle mae eraill yn buddsoddi. Dangoswyd eisoes, drwy gwmpasu'r ddau brosiect cychwynnol a fyddai wedi arwain at fanteision sydyn, y gallai hynny olygu bod prosiectau'n cael eu datblygu'n arafach wrth i'r ddwy Lywodraeth symud eu rhaglenni eu hunain yn eu blaen.

5.5. **Ymateb y farchnad** – Mae yna heriau yng nghanolbarth Cymru oherwydd yr enillion gwael ar fuddsoddiad masnachol ac oherwydd y gost i osod seilwaith digidol ar draws y rhanbarth. Teimlir, yn ystod y gwaith o gaffael contractwyr ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, y gallai fod yna ymatebion annigonol ac y gallai'r diffyg diddordeb yn y rhanbarth barhau, a fydd yn cyfyngu ar ddewis ac ar werth posibl felly hefyd i Tyfu Canolbarth Cymru ac i fusnesau'r canolbarth.

## 6. Goblygiadau cyfreithiol

6.1. Dim ar hyn o bryd.

## 7. Goblygiadau o ran adnoddau

7.1. Dim ar hyn o bryd.

## 8. Goblygiadau ariannol

8.1. Nid yw cymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol a symud cynigion prosiectau yn eu blaen yn gyfystyr â neilltuo arian Bargen Twf Canolbarth Cymru ar hyn o bryd.

## 9. Atodiadau

- Atodiad 1: Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol
- Atodiad 2: Cofrestr Risg a Materion